AM Y FFRAMWAITH ADDYSGOL ANABLEDD DYSGU AR GYFER STAFF GOFAL IECHYD YNG NGHYMRU

RUTH NORTHWAY
EDWARD OLOIDI
RACHEL MORGAN
KATHRYN PRICE
CLARE CHURCHER

Cyflwynir y fframwaith er cof am Paul Ridd.

CYNNWYS

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon	**3**
Am y Fframwaith Addysgol Anabledd Dysgu	**4**
Pam rydyn ni angen y Fframwaith?	**5**
Sut cafodd y Fframwaith ei ysgrifennu?	**7**
Gwerthoedd	**8**
Gwybodaeth a sgiliau	**9**
Beth nesaf	**12**

1. SUT I DDEFNYDDIO'R DDOGFEN HON

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn.
Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei ddeall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

2. AM Y FFRAMWAITH ADDYSGOL ANABLEDD DYSGU

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r **Fframwaith Addysgol Anabledd Dysgu ar gyfer staff Gofal Iechyd yng Nghymru** Fe wnawn ni ei alw yn **Fframwaith** yn fyr.

3. PAM RYDYN NI ANGEN Y FFRAMWAITH?

- Mae'r **Fframwaith** wedi cael ei ysgrifennu oherwydd **rhaglen Gwella Bywydau Anabledd Dysgu** Llywodraeth Cymru.

- Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl gydag anableddau dysgu yn cael gwasanaethau gofal iechyd cyfartal.

Nod y **Fframwaith** yw:

- Gwneud yn siŵr bod gan staff gofal iechyd y sgiliau a'r wybodaeth iawn i gefnogi pobl gydag anableddau dysgu.

- Gwella gofal iechyd ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

- Helpu pobl gydag anableddau dysgu a'u teuluoedd i ymddiried bod y staff gofal iechyd yn gallu gofalu amdanyn nhw'n iawn.

- Gwneud yn siŵr bod staff gofal iechyd yn cael yr addysg a'r hyfforddiant iawn.

4. SUT CAFODD Y FFRAMWAITH EI YSGRIFENNU?

Mae'r **Fframwaith** yn seiliedig ar beth rydyn ni wedi'i ddysgu o:

- **Ymchwil** - Mae **Ymchwil** yn golygu darganfod pethau.

- Cyfweliadau gyda phobl sy'n rhan o ofal iechyd a chefnogi pobl gydag anableddau dysgu.

- Barn a phrofiadau pobl gydag anableddau dysgu.

- Digwyddiad ar gyfer gweithwyr proffesiynol a sefydliadau yng Nghymru.

5. GWERTHOEDD

I wneud yn siŵr bod pobl gydag anableddau dysgu yn gallu cael gofal iechyd da, dylai staff:

- Feddwl am eu safbwyntiau bersonol. A sut y gallai'r safbwyntiau hynny effeithio ar bobl gydag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u cefnogwyr.

- Cofio bod pob person o bwyd. Gweld pobl gydag anableddau dysgu fel unigolion gyda galluoedd, cryfderau ac anghenion gwahanol.

- Parchu hawliau pobl gydag anableddau dysgu Meddwl am eu dewisiadau a'u teimladau.

- Deall pa mor bwysig yw hi i newid y ffordd rydyn ni'n darparu gofal i fodloni anghenion y person.

6. GWYBODAETH A SGILIAU

Mae angen i staff gofal iechyd wybod am 7 peth pwysig:

- Anabledd dysgu.

- Anghenion iechyd pobl gydag anabledd dysgu.

- Pethau sy'n atal pobl rhag cael gofal iechyd. A sut i gael gwared ar y pethau hyn.

- Deall pam mae pobl yn ymddwyn mewn ffyrdd penodol. A'u cefnogi nhw.

- Siarad gyda phobl gydag anableddau dysgu, gwrando a deall ei gilydd.

- Sut i weithio gyda'i gilydd.

- Cyfreithiau, rheolau a hawliau pobl.

Mae 3 lefel o sgiliau a gwybodaeth y gall staff gyflawni:

- **Lefel sylfaen -** gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd sylfaenol mae'n rhaid i'r holl staff gofal iechyd eu cael.

- **Lefel well -** gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mae'n rhaid i bobl sy'n gweithio gyda phobl gydag anableddau dysgu eu cael.

- **Lefel uwch -** lefel uchel o wybodaeth, sgiliau a gwerthoedd mae'n rhaid i staff arbenigol eu cael

Mae'r **Fframwaith** yn dweud beth mae'n rhaid i staff wybod. Nid sut y dylen nhw ei ddysgu.

7. BETH NESAF

- Bydd y **Fframwaith** yn cefnogi staff i roi'r gofal iechyd gorau i bobl gydag anableddau dysgu.

- Ond y cam cyntaf yn unig yw hwn tuag at wella gofal iechyd ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.

- Mae'n rhaid i ni ddilyn y **fframwaith** yn ofalus, gweithio gyda'n gilydd a gwirio ein gwaith o hyd i wella gofal iechyd ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu.